**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

Dyma gofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15[fed] Rhagfyr 2003 yn Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Ll Davies (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| | |
| J R Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Hugh-Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D M Morris | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies (dirprwy) | Cyngor Sir y Fflint |
| R Hill | Cyngor Sir y Fflint |
| R P MacFarlane | Cyngor Sir y Fflint |
| D G Parry | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| D B Evans | Cyngor Gwynedd |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G S Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H T Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); P S Coles (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), H Jones (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A R Cattermoul | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| F A Nichols | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Cyflwynwyd yr eitemau canlynol i'w hystyried:

i. Y Cynllun Arfaethedig ar gyfer darparu lwfansau i aelodau awdurdodau tân yng Nghymru
ii. Trafodaeth ar Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru
iii. Cyhoeddi'r "Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub" sy'n berthnasol i Awdurdodau yn Lloegr, a "Dyfodol Ystafelloedd Rheoli Gwasanaethau Tân yng Nghymru a Lloegr"

Dywedodd y Cadeirydd y penderfynwyd newid y drefn fusnes er mwyn trafod yr eitemau hyn dan eitem fusnes rhif 6.

**3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

i. Estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad yr Awdurdod â'r Cynghorydd W T Owen yn dilyn marwolaeth ei dad yn ddiweddar
ii. Croesawyd Mr Chris Bretherton-Watt, etholwyd yn ddiweddar yn Gadeirydd Pwyllgor Safonau'r Awdurdod, i'r cyfarfod a chafodd ei gyflwyno i'r aelodau
iii. Yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi, anfonwyd llythyr at Dîm Tynnu'n Rhydd Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru i ddymuno'n dda iddynt ym Mhencampwriaeth y Byd yn Ottawa. Cafodd yr aelodau wybod i lythyr o gydnabyddiaeth gael ei dderbyn yn rhoi gwybod i'r Tîm ddod yn agos at y brig. Llongyfarchodd yr aelodau hwy am eu camp
iv. Trefnwyd ymweliad i'r holl aelodau â Chanolfan Hyfforddiant Ryngwladol y Gwasanaeth Tân yn Chorley ar gyfer dydd Llun 2il Chwefror 2004
v. Atgoffwyd yr aelodau y byddai Gwasanaeth Carolau blynyddol y gwasanaethau brys yn cael ei gynnal yng Nghadeirlan Llanelwy y noson honno
vi. Cyhoeddwyd dyddiadau pwyllgorau a drefnwyd: byddai'r Panel Gweithredol yn cyfarfod fore Mercher 14eg Ionawr 2004 am 10:30;

byddai'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod bnawn Mercher 28ain Ionawr 2004 am 2 a byddai'r Pwyllgor Gwerth Gorau yn cyfarfod nesaf bnawn Iau 29ain Ionawr 2004 am 2; pob cyfarfod i'w gynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rhyl

vii. byddai'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân ddydd Llun 15fed Mawrth 2004 ym Mhencadlys Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, â'r cyfarfod i ddechrau am 10:30 y bore

viii. llongyfarchwyd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd M Ll Davies a'r Cynghorydd E Morgan Jones, y ddau ohonynt yn dathlu eu penblwydd

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod o'r Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 29ain Medi 2003
ii. cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 27ain Hydref 2003

***Penderfynwyd*: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

iii. cyfarfod o'r Pwyllgor Gwerth Gorau a gynhaliwyd ar 28ain Awst 2003
iv. cyfarfod o'r Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 27ain Hydref 2003
v. cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2003

## 5) Materion yn codi

Ni chododd unrhyw fater.

## 6) Materion Brys

Trafod yr eitemau a gyflwynwyd eisoes dan eitem fusnes rhif 2.

i. **Y Cynllun Arfaethedig ar gyfer darparu lwfansau i aelodau awdurdodau tân yng Nghymru:** Gofynnodd y Cynghorydd D M Morris i'r Awdurdod gefnogi ei gynnig y dylid anfon llythyr cadarn at y Gweinidog perthnasol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn pwysleisio mor siomedig yw'r Awdurdod fod y Cynulliad yn oedi wrth gyflwyno cynllun tâl i aelodau awdurdodau tân yng Nghymru, gan gynnwys darparu talu lwfansau am gyfrifoldebau arbennig i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. Pwysleisiodd y dylai'r llythyr fynnu amod y dylid ôl-ddyddio'r lwfansau hyn, unwaith y byddai'r rheoliadau wedi eu gosod, i Ebrill 2003 gan fod yr Awdurdod Tân wedi gwneud darpariaeth ar gyfer taliadau o fewn cyllideb eleni. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Clerc fod y Cynulliad wedi ymgynghori ynghylch y cynigion i ddechrau yn ystod Mawrth 2003 ac roedd Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Mai; roedd y wybodaeth ddiweddaraf a gaed gan y Cynulliad yn

dweud bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i fod i drafod y mater yn eu cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn newydd. Roedd y Clerc o'r farn hefyd y dylai'r llythyr bwysleisio y dylai unrhyw lwfansau gael eu trin yn yr un modd â lwfansau a delid i gynghorwyr sir a bwrdeistrefi sirol, a fyddai'n dod yn bensiynadwy o 1af Ionawr 2004 ymlaen, mater yr oedd yr Awdurdod eisoes wedi lobïo Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) yn ei gylch. Roedd yr aelodau'n cytuno, a:

***Penderfynwyd:* -**

i. ***anfon llythyr at y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn pwysleisio mor siomedig oedd yr Awdurdod ynghylch yr oedi wrth weithredu Cynllun Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân yng Nghymru ac yn mynnu bod cynllun yn cael ei sefydlu yn ddi-oed a bod y cynllun hefyd yn darparu ar gyfer ôl-daliadau o Ebrill 2003; a***
ii. ***bod unrhyw lwfansau a delir yn derbyn yr un driniaeth â'r lwfansau a delir i gynghorwyr sir a bwrdeistrefi sirol ac felly'n dod yn bensiynadwy o 1af Ionawr 2004 ymlaen***

**ii. Trafodaeth ar Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru:** Gofynnodd y Cynghorydd E C George i'r Awdurdod ystyried a ddylid cyflwyno sylwadau i Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru, sef fforwm y mae'r Prif Swyddogion Tân, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion holl awdurdodau tân Cymru yn aelodau ohono, y dylid cryfhau ei aelodaeth. Roedd y manylion yn dal i fod yn aneglur, yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, ynghylch pryd y byddai polisi'r gwasanaeth tân yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd Fframwaith Cenedlaethol yr Awdurdodau Tân ac Achub Drafft, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fel y Papur Gwyn, yn cyfeirio at Fyrddau Rheoli Rhanbarthol (RMBs); roedd yr awdurdodau tân yng Nghymru a'r Cynulliad wedi dweud nad oeddynt yn dymuno dilyn y llwybr hwn. Felly, roedd y Cynghorydd George o'r farn ei bod yn hanfodol i'r awdurdodau tân weithredu yn gyntaf a chryfhau Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru, o bosib trwy gynyddu'r aelodaeth o'r nifer bresennol i 6 efallai o aelodau etholedig yn cynrychioli pob un o'r awdurdodau tân yng Nghymru. Dywedodd y Cadeirydd fod y dewis hwn eisoes wedi derbyn cefnogaeth Awdurdod Tân y Canolbarth a'r Gorllewin, oedd wedi trafod y cynnig yr wythnos flaenorol. Dywedodd y Cynghorydd George wrth yr aelodau ei fod yn ceisio eu cefnogaeth i'r cynnig er mwyn i'r Cadeirydd ei gyflwyno, ar ran yr Awdurdod, i'r cyfarfod nesaf o Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru i'w gynnal ar 22ain Rhagfyr 2003. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ond roeddynt o'r farn y dylai cynrychiolaeth Gogledd Cymru fod yn 8 aelod etholedig, i gynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a chwe aelod arall yn cynrychioli pob un o'r awdurdodau cyfansoddol. Hefyd, roeddynt o'r farn y dylai'r cynrychiolwyr adlewyrchu croestoriad eang o'r ardal. Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc y byddai rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r Awdurdod pan fyddai'n enwebu mwy na 3 aelod i eistedd ar unrhyw gorff; petai am fod yn anwleidyddol gallai ddirprwyo'r dasg o benodi cynrychiolwyr i eistedd ar y Fforwm i'r awdurdodau cyfansoddol eu hunain, a hwythau yn eu tro

yn enwebu cynrychiolydd o blith eu cynrychiolwyr ar yr Awdurdod i eistedd ar y Fforwm. Yn dilyn trafodaeth:

***Penderfynwyd:***

- ***i.*** ***bod y Cadeirydd, ar ran Awdurdod Tân Gogledd Cymru, yn argymell i'r cyfarfod o Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru ar 22ain Rhagfyr, y dylid cryfhau aelodaeth y Fforwm o gynrychiolwyr etholedig o bob un o'r awdurdodau tân yng Nghymru;***
- ***ii.*** ***bod yr aelodaeth o Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynyddu i wyth cynrychiolydd i gynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd; a***
- ***iii.*** ***petai'r argymhelliad yn cael ei dderbyn, bod y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod yn Ionawr 2004, yn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol ymlaen o ran enwebu cynrychiolwyr o Awdurdod Tân Gogledd Cymru i eistedd ar Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru neu'r corff ddaw yn ei le***

**iii Cyhoeddi "Y Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub" a "Dyfodol Ystafelloedd Rheoli Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr":** Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog gyhoeddi'r ddwy ddogfen yma ar ddiwedd yr wythnos flaenorol. Roedd o'r farn y dylid tynnu sylw'r aelodau atynt cyn gynted ag y bo modd, felly dyna pam y dosbarthwyd copïau ohonynt cyn dechrau'r cyfarfod. Aeth yn ei flaen i esbonio bod y ddogfen ar y Fframwaith Cenedlaethol Drafft yn dweud yn ddigon clir mai dim ond i awdurdodau tân ac achub yn Lloegr yr oedd yn berthnasol; roedd dogfen fframwaith ar gyfer awdurdodau tân yng Nghymru wrthi'n cael ei llunio ac i fod i weld golau dydd yn y flwyddyn newydd. Roedd y Prif Swyddog Tân o'r farn y byddai llawer o'r darpariaethau yn nogfen Lloegr yn cael eu hadlewyrchu yn fersiwn Cymru.

O ran y ddogfen "*The Future of Fire and Rescue Service Control Rooms in England and Wales*", cafodd yr aelodau wybod mai fersiwn ddiweddaredig o adroddiad Mott MacDonald, "*The Future of Fire Service Control Rooms and Communications in England and Wales*", a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn Ebrill 2000 ydoedd. Roedd y ddogfen yma'n datgan yn bendant mai'r sefyllfa orau bosib yng Nghymru fyddai cael un ystafell reoli ar gyfer y gwasanaeth tân; er ei fod yn cydnabod mai'r Cynulliad fyddai biau unrhyw benderfyniad ar y mater. Atgoffodd y Cynghorydd E C George yr aelodau fod yr awdurdodau tân yng Nghymru eisoes wedi cael ei ad-drefnu yn 1996 pan unodd yr 8 o awdurdodau ac ystafelloedd rheoli yn 3 canolfan reoli; roedd hefyd o'r farn mai doeth o beth fyddai i'r Panel Gweithredol drafod y ddwy ddogfen yn eu cyfarfod nesaf gan y byddai hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau ddarllen y ddwy ddogfen ymlaen llaw. Y ddyddiad cau ar gyfer ymatebiadau i'r ymgynghoriad ar y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol Drafft oedd 12fed Mawrth 2004; byddai hyn cyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod llawn. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau ei fod yn amau a fyddai'r ddogfen Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Cymru wedi ei chyhoeddi mewn pryd i'w thrafod yn y cyfarfod o'r Panel Gweithredol ar 14eg Ionawr ac y byddai efallai raid galw cyfarfod arbennig o'r Panel Gweithredol

neu o'r Awdurdod Tân i ystyried ei oblygiadau a llunio ymateb. Roedd y Cynghorydd W J Chorlton o'r farn mai doeth fyddai ymateb i'r ddwy ddogfen Fframwaith Cenedlaethol Drafft, un Cymru a Lloegr.

O ran yr adroddiad diwygiedig ar ddyfodol ystafelloedd rheoli'r gwasanaethau tân ac achub roedd y Cynghorydd N Hugh-Jones yn teimlo ei bod yn bwysig fod Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn ailddatgan ei safbwynt ar ddichonolrwydd un ystafell reoli ar gyfer Cymru, ac yn benodol, leoliad ystafell reoli o'r fath; dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod y Cynulliad eisoes yn ymwybodol iawn o safbwynt yr Awdurdod ar y mater yma. I ateb cwestiwn a gododd y Cynghorydd J A MacLennan ynghylch y sefyllfa bresennol o ran hynt edrych ar ba mor ddichonol fyddai rhannu adeiladau â gwasanaethau brys eraill yng Nghymru, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod prif swyddogion y gwasanaethau brys yn brysur yn edrych ar ba mor bosib fyddai ystafell reoli ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru, fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 27ain Hydref 2003. Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod cyhoeddi'r adroddiad hwn wedi cyfrannu at leihau'r amser ar y mater hwn gan fod y cytundeb "Firelink" i fod i gael ei gosod yng ngwanwyn 2004 ac roedd angen datrys mater nifer y canolfannau rheoli cyn hynny. Dywedodd y Cadeirydd fod y ddau adroddiad yma i'w trafod yng nghyfarfod Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru ar 22ain Rhagfyr a byddai unrhyw benderfyniadau, ynghyd â safbwyntiau'r awdurdodau tân eraill yng Nghymru, yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod maes o law. Wedi trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cyhoeddi'r ddwy ddogfen a bod y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 14eg Ionawr 2004 yn:***

- ***i. trafod y dogfennau "Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub" a "Dyfodol Ystafelloedd Rheoli Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr" ac yn penderfynu a ddylid llunio ymateb i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cynulliad Cenedlaethol ar ran yr Awdurdod ai peidio; a***
- ***ii. penderfynu a ddylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Panel Gweithredol neu'r Awdurdod Tân unwaith y cyhoeddir dogfen "Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub" yng Nghymru ar gyfer ymgynghoriad***

### 7) Gohebiaeth ynghylch Datganiadau Ariannol i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr David Jones o'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i'r cyfarfod i gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ar y "Datganiad ar Safonau Archwilio (SAS) 610", a oedd am y tro cyntaf eleni yn berthnasol i waith archwilio cyfrifon yr Awdurdod. Dywedodd Mr Jones wrth yr Awdurdod ei fod yn falch o adrodd nad oedd unrhyw faterion mawr yn codi o'r cyfrifon i beri pryder i'r Comisiwn. Nid oedd chwaith unrhyw feysydd o wendid

materol o ran y cyfrifo na'r systemau rheoli mewnol roedd yn dymuno tynnu sylw'r aelodau atynt.

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn yr adroddiad***

## 8) Llythyr o Gynrychiolaeth

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ynghyd â chopïau o'r ohebiaeth rhwng yr Archwiliwr Allanol ac yntau ynghylch y Llythyr o Gynrychiolaeth ar Ddatganiad o Gyfrifon 2002/03. Esboniodd fod angen i'r Awdurdod, pan gymeradwyodd y Datganiad o Gyfrifon, dan Reoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996, gydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwiliwr Allanol. Dywedodd y Trysorydd nad oedd ganddo ddim byd arall i'w ychwanegu at gynnwys yr adroddiad. Cofnododd yr Is-Gadeirydd ei werthfawrogiad fod y fersiynau Cymraeg a'r Saesneg o'r llythyrau rhwng yr Archwiliwr Allanol a'r Trysorydd wedi eu cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad. Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i Mr Jones am fynychu a chyflwyno ei adroddiad, a:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwiliwr Allanol ar gyfrifon 2002/03***

## 9) Datganiad o Gyfrifon 2002/03

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau ac esboniodd bod yr Awdurdod eisoes wedi cymeradwyo'r cyfrifon yn ei gyfarfod ar 16eg Mehefin 2003 ond roedd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, fel rhan o'u harchwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon, wedi codi ambell fân bwynt yng nghyflwyniad y cyfrifon fel a nodwyd yn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Awdurdod fod y gwendidau yma wedi eu cywiro ac yn dyfynnu o ddatganiad ymateb y Pennaeth Archwilio a Chaffael i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2002/03; a***
ii. ***nodi'r Datganiad ar y System Rheolaeth Fewnol***

## 10) Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybodaeth gefndir ar y gwaith Rheoli'r Trysorlys, y Côd Ymarfer a'r Arferion Rheoli'r Trysorlys oedd yn berthnasol i'r Awdurdod Tân; hefyd, rhoddodd orolwg o bob swyddogaeth. Esboniodd fod raid i'r Awdurdod bellach fabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaeth Cyhoeddus; yn y gorffennol nid oedd i'w weld yn angenrheidiol i'r Awdurdod fabwysiadu'r Côd ei hun, gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, oedd yn rheoli arian yr Awdurdod, eisoes wedi mabwysiadu'r Côd. Ers hynny, daeth i'r amlwg yng Nghyngor Bwrdeistref

Sirol Conwy y dylai'r Côd Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaeth Cyhoeddus gael ei fabwysiadu gan y ddau awdurdod ar wahân. Felly:

***Penderfynwyd*: -**

i. ***mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2002) ar unwaith***
ii. ***mabwysiadu'r pedwar cymal yn Adran 3 o Atodiad A i'r adroddiad i fewn i'w Reoliadau Ariannol***
iii. ***mabwysiadu'r tri chymal yn Adran 4 o Atodiad A i'r adroddiad fel ei Ddatganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys; a***
iv. ***mabwysiadu'r Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n berthnasol i'r Awdurdod Tân fel yr amlinellwyd yn Atodiad B i'r adroddiad***

**11) Cyllideb 2004/05 a'r rhagolwg ar gyfer 2005/06 a 2006/07**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn cynnwys nifer o gynigion i'r Awdurdod eu hystyried parthed y gyllideb ddrafft ar gyfer 2004/05, ynghyd â'r rhagolygon ar gyfer 2005/06 a 2006/07. Fel atodiadau i'w adroddiad roedd manylion y gyllideb refeniw ddrafft, y rhaglen gyfalaf ddrafft, y cyfraniadau am y tro sydd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol, datganiad yn manylu ar y cynyddiadau yn y gyllideb, rhestr o'r dangosyddion darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2004/05. Esboniodd y Trysorydd fod gofyn i'r Awdurdod, trwy statud, ystyried ei gyllideb ddrafft cyn 31ain Rhagfyr bob blwyddyn er mwyn cyflwyno i bob awdurdod cyfansoddol amcangyfrif o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn ganlynol, wedyn, cyn 15fed Chwefror roedd gofyn i'r Awdurdod ddangos i bob awdurdod cyfansoddol y swm mae raid iddynt ei gyfrannu i'r Awdurdod. Dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys yr holl oblygiadau o ran y cytundeb ar gyflog ac amodau, ynghyd â'r arbedion a ddisgwylir dan y Cynllun Risg, ond nid oedd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw arian pontio a allai ddod gan y llywodraeth ganolog ar gyfer cytundeb Cyflog a Moderneiddio'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Nid oedd eto'n glir a fyddai unrhyw arian pontio yn dod, ac os byddai, a fyddai ar ffurf cymhorthdal ynteu ar ffurf benthyciad, a phe bai ar ffurf benthyciad, hyd tymor y benthyciad hwnnw. Dywedodd y Trysorydd y byddai'n fwy na thebyg raid talu unrhyw fenthyciad yn ôl o fewn tair blynedd; dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Drafft, a drafodwyd ynghynt, i'w weld yn dweud na fyddai arian ar gael tan ar ôl i'r Comisiwn Archwilio orffen ei astudiaeth genedlaethol ar foderneiddio, fyddai fwy na thebyg ym mis Mawrth 2004, a byddai hyn yn rhy hwyr ar gyfer y drefn gosod y gyllideb. Ychwanegodd y Clerc fod dogfen y Fframwaith Cenedlaethol yn nodi y byddai unrhyw arian pontio a roddid yn cael ei adennill o fewn cyfnod yr Adolygiad o Wariant (SR2002), trwy ostwng y Grant Cefnogi Refeniw ar gyfer 2005/06.

Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau am yr elfennau o risg a berthynai i bob opsiwn yn yr adroddiad ar gyfer lleihau'r gyllideb gyffredinol, ac na fyddai'r opsiynau a restrid yn effeithio ar lefelau'r gwasanaeth mewn unrhyw ffordd.

Petai'r aelodau o'r farn y dylid lleihau'r gyllideb ymhellach, yna effeithid ar lefel y gwasanaeth ddarperid. Dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau y gallai'r Awdurdod, petai rhagor o arbedion yn dod i'r golwg cyn 15fed Chwefror fyddai'n gostwng y gyllideb ddrafft, ddirprwyo'r dasg i'r Panel Gweithredol o osod cyfraniad terfynol yr awdurdodau cyfansoddol, ac fod ganddo gyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 14eg Ionawr 2004; petai arbedion yn dod i'r golwg ar ôl y dyddiad hwn gallai'r Awdurdod wedyn ddirprwyo'r dasg o amrywio cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. Fodd bynnag, petai'n ymddangos ar unrhyw adeg y byddai cyfraniad yr awdurdodau cyfansoddol yn uwch na'r swm y penderfynwyd arno yn y cyfarfod presennol, byddai'n rhaid galw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod cyn 15fed Chwefror er mwyn cytuno ar gyllideb ddiwygiedig a phennu'r cyfraniadau angenrheidiol.

Roedd yr aelodau'n cytuno bod yr Awdurdod mewn sefyllfa ffodus gan iddo fod yn ddarbodus yn y blynyddoedd diwethaf. Holwyd a ellid amrywio y targedau yn y Cynllun Risg ar ostwng nifer yr ymatebiadau i alwadau gan systemau larwm awtomatig i nifer uwch, ac a ellid canslo'r peiriant cyrraedd yn uchel arfaethedig er mwyn cael yr arbedion uchaf posib a lliniaru'r pwysau ar y gyllideb; dywedodd y Prif Swyddog Tân, y Cadeirydd a'r Trysorydd na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i newid y Cynllun Risg gan ei fod yng nghanol ymgynghoriad cyhoeddus. O ran prydlesu'r peiriant cyrraedd yn uchel, roedd yr Awdurdod eisoes wedi cymeradwyo'r penderfyniad a'r peiriant wedi ei archebu; roedd Gweithgor y Cynllun Risg eisoes wedi trafod y ddau opsiwn yma yn fanwl. Dywedodd y Trysorydd fod yr Awdurdod, ar hyn o bryd, mewn sefyllfa ansicr iawn ac roedd angen ystyried yn ofalus yr elfen risg wrth osod ei gyllideb; efallai y byddai'n well, ar gyfer yr hir dymor, ofyn am gyfraniad uwch nawr a bod mewn sefyllfa i ad-dalu'r arian i'r awdurdodau cyfansoddol yn hwyrach ymlaen. Wedi trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***defnyddio arian y tanwariant o'r blynyddoedd blaenorol ac arian y Ddarpariaeth Gyfalaf i leihau'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2004/05;***
ii. ***peidio â rhoi'r cyfraniad o £160,000 i'r Ddarpariaeth Bensiynau ar gyfer 2004/05, a chynyddu'r cyfraniad o £20,000 dros yr 8 mlynedd nesaf;***
iii. ***gosod y gyllideb ar gyfer 2004/05 ar £27,234,633;***
iv. ***rhoi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol beth yw'r cyfraniadau am y tro fel y nodwyd yn Atodiad D i'r adroddiad; a***
v. ***petai unrhyw arian pontio yn dod ar gael, neu unrhyw arbedion eraill yn dod i'r golwg cyn 14eg Ionawr 2004, i ddirprwyo'r pŵer i'r Panel Gweithredol, i osod lefel is i'r gyllideb neu, petai datganiad o'r fath neu unrhyw arbedion yn dod i'r golwg ar ôl y dyddiad yma ond cyn 15fed Chwefror, dirprwyo'r pŵer i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd***

Yna, tynnodd y Trysorydd sylw'r aelodau at y rhaglen gyfalaf a nodwyd yn ei adroddiad. Dywedodd wrth yr Awdurdod y byddai'r system Cymeradwyaeth Credyd Sylfaenol yn darfod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, ac yn cymryd ei lle yn 2004/05 byddai'r Côd Darbodus. Byddai'r Awdurdod ar ei ennill trwy gael benthyca yn hytrach na gorfod dal darpariaeth ar gyfer ei wariant cyfalaf.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***vi. cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft a'r dulliau cysylltiedig o ariannu fel a nodwyd yn yr adroddiad;***
- ***vii. cymeradwyo'r cynigion nodwyd yn Atodiad F i'r adroddiad mewn perthynas â'r Dangosyddion Darbodus; a***
- ***viii. cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol***

Roedd yr aelodau'n gytûn â'r Cadeirydd wrth ddiolch i'r Trysorydd a'i staff am lunio a chyflwyno'r hyn oedd, ar sawl cyfrif, yn gyllideb anodd iawn.

**12) Y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau'r Sefydlog**

Cyn cyflwyno ei adroddiad dywedodd y Clerc wrth yr aelodau fod Prif Weinidog Cymru wedi datgan yn ddiweddar, yn dilyn ymarferiad ymgynghorol, fod dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol yn 2004 i'w gohirio er mwyn eu cynnal ddydd Iau, 10$^{fed}$ Mehefin 2004 a'u cyfuno gyda'r etholiadau i Senedd Ewrop. Disgwylid i orchymyn i gyfuno dyddiad y ddau etholiad ddod gerbron y Cynulliad ym mis Ionawr. Dywedodd wrth yr aelodau y byddai angen i'r Awdurdod, unwaith i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio, ystyried newid dyddiad ei gyfarfod blynyddol, sef 21$^{ain}$ Mehefin 2004 ar hyn o bryd, i ddyddiad diweddarach, yn ystod mis Gorffennaf fwy na thebyg.

Aeth y Clerc yn ei flaen i gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog yr Awdurdod, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf na ddylai cofnodion cyfarfod blynyddol yr Awdurdod gael eu hadrodd na'u cymeradwyo tan ei gyfarfod blynyddol nesaf. Esboniodd y byddai unrhyw drafodaeth yn eu cylch, petai'r newidiadau'n cael eu cynnig a'u heilio yn y cyfarfod presennol, yn cael eu gohirio tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2004. Cynigiwyd y newidiadau gan y Cadeirydd ac fe'u heiliwyd gan yr Is-Gadeirydd a:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog fel a restrwyd yn yr adroddiad a gohirio trafodaeth yn eu cylch tan gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth 2004***

**13) Rhoi'r Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol ar waith**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am roi'r Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol ar waith, a chadarnhau'r hynt hyd yn hyn. Atgoffwyd yr aelodau eu bod, fel rhan o drefn y

Cynllun Risg, wedi cytuno eisoes i ailstrwythuro rheolaeth y Gwasanaeth, yn seiliedig ar y ddogfen Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol, a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Awdurdod ym Mawrth 2002. Roedd y trafodaethau gydag Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi ailgychwyn ar yr Adolygiad o'r Strwythur Rheolaethol yn dilyn terfynu'r anghydfod diwydiannol ac roedd yr Undeb wedi argymell derbyn y cynigion oedd yn yr adroddiad; roedd yr arbedion net ddangoswyd yn yr adroddiad hefyd wedi eu hymgorffori i adroddiad y Trysorydd ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2004/05. Gofynnodd y Cynghorydd E C George i'r Awdurdod gael manylion y "rheng i swyddogaeth / cymhathu" (*rank to role / assimilation*) a fyddai'n berthnasol dan y System Datblygiad Personol Integredig (IPDS) cyn gynted ag y byddent ar gael, gan ei fod yn teimlo y byddai'r wybodaeth yma o fudd i'r aelodau. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod gwaith yn dal i gael ei wneud ar yr agwedd yma a chytunodd i roi'r manylion i'r Awdurdod cyn gynted ag y byddent yn barod. Yna:

***Penderfynwyd*: -**

***i. cadarnhau i ostwng nifer y swyddi Uwch Swyddog Rhanbarthol o ddwy swydd, a gostwng nifer swyddi Swyddog Rhanbarth Gradd 1 o un swydd; ac***
***ii. ategu at strwythur yr uwch reolwyr gydag un Prif Swyddog Tân Cynorthwyol***

**14) Y Cytundebau Lefel Gwasanaeth**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn argymell bod yr Awdurdod Tân yn cadarnhau argymhellion y Panel Gweithredol ar yr adolygiad o'r penodiadau statudol a'r cytundebau lefel gwasanaeth a wnaethpwyd. Roedd cost a hyd pob cytundeb lefel gwasanaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad

***Penderfynwyd*: - cadarnhau argymhellion y Panel Gweithredol fod :**

***i. penodiad statudol y Clerc/Swyddog Monitro yn parhau gyda Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych a'r cytundeb lefel gwasanaeth Cyfreithiol yn aros gyda Chyngor Sir Ddinbych;***
***ii. penodiad statudol y Trysorydd yn parhau gyda Chyfarwyddwr Cyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r cytundeb lefel gwasanaeth Ariannol yn aros gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; a***
***iii. cytundeb lefel gwasanaeth darparu Pensiynau'r Ymladdwyr Tân yn aros gyda Chyngor Sir y Fflint***

**15) Pencadlys Rhanbarth y Dwyrain**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda golwg i gael yr Awdurdod i gymeradwyo, mewn egwyddor, gael gwared ar safle Pencadlys y Dwyrain ar Ffordd Maesgwyn, Wrecsam. Esboniodd na

fyddai angen yr adeilad hwn mwyach fel rhan o'r agenda foderneiddio a'r ailstrwythuro o droi'r tri rhanbarth presennol yn saith ardal diogelwch tân yn seiliedig ar ardaloedd yr awdurdodau unedol fel a gymeradwywyd yn y Cynllun Risg. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod trafodaeth gyda datblygwr oedd a diddordeb yn y safle yn y camau cynnar a rhoddodd sicrhad i'r Awdurdod na fyddid yn cael gwared ar y safle cyn cael safle newydd addas. Y safle delfrydol fyddai "siop un alwad" ar safle yng nghanol tref i'w rannu gyda budd-ddeiliaid eraill.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd ei fod, yn ddiweddar, wedi ymweld â Phencadlys Rhanbarth y Dwyrain ac wedi ei synnu fod cynifer o greiriau o gyfnod y "Gwasanaeth Achub o Gloddfeydd" yn dal yno; roedd o'r farn y byddai'n beth gweddus i'r Awdurdod gysylltu ag awdurdodau Amgueddfa Wrecsam i holi a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael rhai o'r pethau cyn i'r safle gael ei werthu. Roedd y Cynghorydd Malcolm Williams yn cytuno â'r cynnig hwn, gan ei fod o'r farn fod y pethau yma yn cynrychioli rhan o dreftadaeth ddiwydiannol Wrecsam. Felly:

***Penderfynwyd:***

i. ***nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno, mewn egwyddor, i gael gwared ar y safle; a***
ii. ***cyn cael gwared ar y safle, cysylltu ag awdurdodau Amgueddfa Wrecsam gyda golwg ar sefydlu a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn derbyn unrhyw eitemau oedd yno***

**16) Rhoi peiriant tân i Bosnia**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), ynghyd â chopi o lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mr Chad Hudson ar ran Cymdeithas Ryngwladol Tân ac Achub (IRFA), yn rhoi gwybod i'r aelodau am gais a dderbyniodd yr Awdurdod i gyfrannu peiriant tân i Bosnia. Roedd peiriant tân, a glustnodwyd fel un nad oedd mo'i angen bellach, i'w weld yn addas at anghenion y gwasanaeth yn Bosnia; byddai'r peiriannau eraill a fyddai'n dod i ddiwedd eu hoes gweithredol yn ystod 2004 yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored. Roedd gwybodaeth am y peiriant ynghyd â'i addasrwydd, ac unrhyw rwymedigaethau cyfredol, yn yr adroddiad. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai'r Awdurdod gefnogi'r egwyddor o roi cymorth i wledydd sy'n datblygu a:

***Penderfynwyd: -***

i. ***cymeradwyo cyfrannu un peiriant tân i'r Gymdeithas Ryngwladol Tân ac Achub trwy law Mr Hudson; a***
ii. ***bod y cyfraniad hwn yn rhad ac am ddim***

**17) Gwerth Gorau**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am faterion yn ymwneud â Gwerth Gorau. Esboniodd mai'r adroddiad safonol o'r hynt ydoedd ac aeth yn ei flaen i geisio barn yr aelodau ar yr angen i lunio'r adroddiad chwarterol hwn, yn enwedig gan fod Pwyllgor Gwerth Gorau bellach yn bod, a'i gofnodion yn cael eu hanfon at bob aelod o'r Awdurdod er gwybodaeth. Teimlai'r aelodau eu bod yn gwerthfawrogi derbyn yr adroddiad bob chwarter ac felly:

***Penderfynwyd*****: - nodi a chymeradwyo'r camau a'r camau arfaethedig oedd yn yr adroddiad a pharhau i dderbyn yr adroddiad bob chwarter ar faterion yn ymwneud â Gwerth Gorau**

**18) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn *"Er Gwybodaeth"* i'r aelodau ac ymddiheurodd ei fod yn hwyr cael ei ddosbarthu. Esboniodd y Cadeirydd fod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at yr oedi. Croesawodd Miss Bethan Davies, Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus gyda'r Gwasanaeth, i'r cyfarfod a diolch iddi am lunio'r cylchgrawn. Dywedodd hefyd ei fod yn falch o weld ei bod yn gwella yn dilyn damwain yn ddiweddar. Felly:

***Penderfynwyd: - derbyn y cylchgrawn***

**RHAN II**

Dim busnes.

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:15 y prynhawn

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 15 Mawrth, 2004